# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION PWYLLGOR ARBENNIG CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## CYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE ON DYDD MERCHER, 11 MAI 2016 AT 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Y cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | P Lloyd |
| P M Matthews | P B Smith | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ian Beynon | Rheolwr Datblygu ac Allgymorth |
| Stephen Cable | Swyddog Chwarae Plant |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Russ | Rheolwr Gwasanaethau Parciau |
| Jacki Rees Thomas | Gweithiwr Datblygu Chwarae |

69 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D W Cole, C Thomas ac Andrew McTaggart.

70 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni chyhoeddwyd unrhyw fuddion.

71 **STRATEGAETH MANNAU AGORED.**

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft diweddaraf y Strategaeth Mannau Agored ar gyfer Abertawe gan Ian Beynon, Rheolwr Datblygu ac Allgymorth.

Cefnogwyd cynnwys y strategaeth ddrafft yn llawn gan y pwyllgor; fodd bynnag, canolbwyntiodd y trafodaethau ynglŷn â chryfhau'r strategaeth ar y pynciau canlynol:

- A ddylid cynnwys rhandiroedd, mynwentydd, mannau agored dinesig eraill / traethau o fewn y ddarpariaeth bresennol neu beidio. Cytunwyd y dylid cynnwys rhandiroedd oherwydd y ddyletswydd i ddarparu nifer digonol o randiroedd, ac y dylid hyrwyddo mynwentydd fel lleoedd i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau megis cerdded lle nad oedd darpariaeth arall ar gael.

- Ni chynhwyswyd parciau/caeau chwarae ysgolion arfaethedig. Nodwyd nad oedd nifer o ardaloedd chwarae yn hygyrch ar hyn o bryd.

- Ystyried goblygiadau cynnwys y defnydd o iardiau chwarae ysgolion er mwyn cynyddu hygyrchedd i breswylwyr lleol ac annog mwy o ddefnydd.

- Darparwyd y Safonau Mannau Agored yn seiliedig ar yr Asesiad Mannau Agored, fodd bynnag nodwyd efallai y byddai angen rhai newidiadau ar yr adran hon.

- Cytunwyd y byddai'r strategaeth yn pennu gweledigaeth hyd at 2025 gan gysylltu â'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Byddai angen cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb hefyd er mwyn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc a hyrwyddo manteision Lles / Byw'n Iach, etc.

- Ystyriwyd a ddylid cyfeirio at feini prawf Ceisiadau Meysydd Pentref o fewn y Strategaeth neu'r cynllun gweithredu. Cytunwyd y byddai cyfeiriad at hwn yn y cynllun gweithredu.

- Dylid cyfeirio at y cynllun gweithredu yn y ddogfen strategaeth.

**CYTUNWYD:**

1) Y dylai'r Rheolwr Datblygu ac Allgymorth orffen yr adran ar "Hyrwyddo bioamrywiaeth a chadwraeth natur" ar y cyd â chydweithwyr yn y Tîm Cadwraeth Natur.

2) Y dylai'r Rheolwr Datblygu ac Allgymorth a'r Swyddog Chwarae i Blant baratoi gwybodaeth yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y cyfarfod nesaf.

3) Y dylai'r Rheolwr Datblygu ac Allgymorth newid y datganiad presennol yn y cyflwyniad i "Amlinellu arfer da ac astudiaethau achos o bob rhan o'r wlad a chynghori arnynt".

4) Cynnal Pwyllgor Arbennig Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu ychwanegol ym mis Mehefin / Gorffennaf er mwyn adolygu'r Strategaeth Mannau Agored derfynol cyn ei chyflwyno i Aelod y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35 am

**CADEIRYDD**